**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL - DYDD IAU, 28 HYDREF 2021 DYDD IAU, 28 HYDREF 2021**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: D. HANCOCK (CADEIRYDD)

Councillors W. Hodgins (Is-gadeirydd)
D. Bevan
J. Hill
C. Meredith
K. Rowson
K. Pritchard
G. Thomas
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| |
|---|
| Helen Jones (Swyddog) |
| Sally-Ann Evans (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd yr ymddiheriadau dilynol am absenoldeb:-<br><br>Cynghorydd M. Day.<br>Cynghorydd T. Smith | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| No. 3 | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| No. 4 | **<u>DEDDF GAMBLO 2005 – ADOLYGU DATGANIAD POLISI GAMBLO</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Swyddog Trwyddedu.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm – Safonau Masnach a Thrwyddedu fod yr adroddiad yn ceisio cefnogaeth y Pwyllgor Trwyddedu Statudol i Ddeddf Gamblo 2005 - Datganiad Polisi Trwyddedu. Ychwanegodd y Rheolwr Tîm y cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu Statudol i'w ystyried cyn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor llawn a'i hysbysebu mewn papur newydd lleol cyn dod i rym ar 31 Ionawr 2022.<br><br>Ychwanegodd y Rheolwr Tîm y cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol ar y drafft bolisi rhwng 3 Medi a 1 Hydref 2021 gyda chwech deiliad trwydded perthnasol dan y Ddeddf sy'n cynnwys 12 safle gamblo trwyddedig yn cynnwys tair canolfan hapchwarae i oedolion ac wyth safle betio. Nodwyd fod gan rhai trwyddedigion fwy nag un trwydded. Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal rhwng Awdurdodau Cyfrifol, Aelodau a grwpiau a sefydliadau eraill perthnasol sy'n cynnwys y Comisiwn Gamblo, HMRC, Gamcare. Dywedodd y Rheolwr Tîm mai dim ond un ymateb a gafwyd ac roedd hyn yn hollol weinyddol er mwyn diwygio cyfeiriad sefydliad.<br><br>Nododd y Rheolwr Tîm yr opsiwn a ffafrir a chyfeiriodd Aelodau at y polisi terfynol a fanylir yn Atodiad 1.<br><br>Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan Aelodau ar y pwynt hwn.<br><br>Gofynnodd Aelod os oes terfyn ar nifer y safleoedd gamblo a dywedodd nad oes unrhyw bolisi yn ei le i gyfyngu nifer y safleoedd gamblo.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn am ddiwygiadau i'r polisi, cadarnhaodd y Rheolwr Tîm na fu unrhyw sylwadau, felly mae'r polisi yn parhau heb ei newid.<br><br>Gofynnodd Aelod pryd y cynhelid yr adolygiad nesaf ac atebwyd y | |

| | | |
|---|---|---|
| | byddai hynny mewn 3 blynedd.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chefnogodd y Pwyllgor Trwyddedu Statudol y polisi a adolygwyd sydd yn Atodiad 1 ac yn argymell ei gymeradwyo gan y Cyngor (opsiwn 1). | |